Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Hysbysiad Preifatrwydd

## Aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr, ei Bwyllgorau ac is-gwmnïau'r Brifysgol

### 1. PWRPAS A CHYD-DESTUN

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn cydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UKGDPR) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Mae'r Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, a ddaeth i rym ar 19 Gorffennaf 2025, yn diwygio'r UKGDPR a Deddf Diogelu Data 2018 i gefnogi technolegau newydd a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Tra bod egwyddorion craidd yr UKGDPR yn parhau, mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn cyflwyno newidiadau penodol, megis darpariaethau newydd ar gyfer prosesu diogelwch cenedlaethol a diffiniadau mwy eglur er dibenion ymchwil.

Mae Deddf Diogelu Data'r DU 2018 ("DPA") A'R UKGDPR yn llywodraethu'r ffordd y mae sefydliadau yn defnyddio data personol. Data personol yw gwybodaeth sy'n berthnasol i unigolyn byw y gellir ei adnabod.

Mae tryloywder yn elfen allweddol o'r UKGDPR ac mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn wedi'i ddylunio i roi gwybod i chi:

- sut a pham mae'r Brifysgol yn defnyddio'ch data personol,
- eich hawliau o dan yr UKGDPR, a,
- sut i gysylltu â ni i arfer yr hawliau hynny.
- Sut y gallwch wneud cwyn os byddwch yn credu ein bod wedi trin eich data mewn modd amhriodol.

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd. Bydd unrhyw newidiadau a wnawn i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu rhoi ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd o dan llywodraethu gwybodaeth. Gallwch hefyd gael eich hysbysu drwy e-bost neu drwy'r post.

### 2. HUNANIAETH A MANYLION CYSWLLT Y RHEOLWR DATA

Mae Prifysgol Wrecsam wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel Rheolwr Data ac yn ymrwymedig i ddiogelu hawliau unigolion yn unol â'r DPA a'r UKGDPR. Gellir dod o hyd i gopi o'r cofrestriad hwn yma.

Mae gan Brifysgol Wrecsam Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu ag ef drwy dpo@wrexham.ac.uk.

•

## 3. PA WYBODAETH YDYM NI'N EI CHASGLU AMDANOCH CHI?

* *Yn dynodi gwybodaeth a all gynnwys data a ddosberthir fel data personol sensitif/categorïau arbennig o ddata personol o dan yr UKGDPR ac o'r herwydd yn destun lefel uwch o reolaeth a diogelwch.*

*V yn dynodi gwybodaeth yr ydych yn ei darparu ar sail wirfoddol neu lle cewch yr opsiwn i roi 'mae'n well gen i beidio â dweud' neu 'gwybodaeth wedi'i gwrthod.'*

*# Yn dynodi gwybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi/a fydd ar gael i'r cyhoedd.*

**3.1 Pan fyddwch yn dod yn aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr neu is-gwmni'r Brifysgol, bydd y Brifysgol yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol yn eich cylch:**

- eich enw# a'ch manylion cyswllt (megis cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- y wybodaeth sydd ei hangen ar y Comisiwn Elusennau i'ch cofrestru fel ymddiriedolwr (elusen gofrestredig rhif 1142048). Mae hyn yn cynnwys eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol yr ydych wedi'u defnyddio, cenedligrwydd a'ch cyfeiriad cartref);
- y wybodaeth sydd ei hangen gan Dŷ'r Cwmnïau i'ch cofrestru fel Cyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol. Mae hyn yn cynnwys manylion eich dyddiad geni, unrhyw enwau ychwanegol yr ydych wedi'u defnyddio, cenedligrwydd, teitl swydd, cyfeiriad gwasanaeth (a all fod yn gyfeiriad cofrestredig y cwmni) a'ch cyfeiriad cartref;
- Eich CV (gan gynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi'r cais);
- manylion bywgraffiadol a ffotograff.
- data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu i fonitro amrywiaeth y Bwrdd. Noder fod data o'r fath yn cael ei gyhoeddi mewn ffurf di-enw'n unig fel yn yr adroddiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol.

Yn flynyddol, byddwn yn gofyn i chi gwblhau:

- ffurflen 'Datganiad o Ddiddordeb' sy'n gofyn am wybodaeth ynglŷn â'ch diddordebau eraill sy'n berthnasol ac yn hanfodol i'r Brifysgol. Bydd y wybodaeth yn cael ei chrynhoi yn gofrestr o ddiddordebau a fydd yn cael ei chadw o fewn yr Ysgrifenyddiaeth. Gellir cael copïau o'r fath drwy gysylltu â clerktotheboard@wrexham.ac.uk
- holiadur yn amlinellu eich sgiliau a'ch profiad fel y cânt eu mapio yn erbyn ystod yr arbenigedd y mae'r Bwrdd yn gofyn amdani gan ei aelodau;
- ffurflen monitro cydraddoldeb, yn gofyn am fanylion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig fel y'u cwmpasir gan ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoeddus, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) (yn flynyddol). Mae hyn yn cynnwys:
    - oedran
    - dyddiad geni
    - rhywedd
    - ailbennu rhywedd* V
    - ethnigrwydd*
    - anabledd*
    - cred grefyddol*
    - bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
    - bod yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth
    - cyfeiriadedd rhywiol* V
    - eich cymhwyster uchaf.

•

**3.2 Os ydych yn llywodraethwr staff, ynghyd â'r wybodaeth yn 3.1, byddwn hefyd yn casglu drwy'r broses etholiad:**

- eich Is-adran/adran Gwasanaeth Proffesiynol;
- datganiad i'r etholaeth a rennir â holl staff y brifysgol;
- manylion a chanlyniadau'r bleidlais.

**3.3 Os ydych yn aelod Pwyllgor neu'n aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr (aelod ar y cyd) neu'n gyfarwyddwr un o is-gwmnïau'r Brifysgol (ond ddim yn aelod o Fwrdd y Llywodraethwyr), byddwn yn casglu'r mathau canlynol o ddata personol yn eich cylch:**

- eich enw a'ch manylion cyswllt (megis cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn);
- Eich CV (gan gynnwys eich cefndir addysgol, cymwysterau, hanes cyflogaeth, penodiadau cyhoeddus/gwirfoddol, datganiad ychwanegol i gefnogi'r cais);
- manylion bywgraffiadol a llun; a gofyn i chi gwblhau yn flynyddol:
  ffurflen 'Datganiad o Ddiddordeb' sy'n gofyn am wybodaeth ynglŷn â'ch diddordebau eraill sy'n berthnasol ac yn hanfodol i'r Brifysgol. Bydd y wybodaeth yn cael ei chrynhoi yn gofrestr o ddiddordebau.

**3.4 Yn ogystal â'r uchod gall y data canlynol gael ei gasglu yn ystod cyfnod eich penodiad:**

- Manylion cyfrif banc
- Rhif cofrestru car
- Enw partner/priod
- Gofynion dietegol
- Manylion cyswllt ychwanegol
- Gohebiaeth
- Presenoldeb cyfarfodydd
- Gofynion addasiadau rhesymol*

## 4. PAM YDYM NI'N PROSESU EICH DATA PERSONOL?

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol brosesu eich data personol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

**4.1 Ar gyfer holl aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr:**

- cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Bydd manylion penodol ar gael yn gyhoeddus i'r rheiny sy'n chwilio am wybodaeth Ymddiriedolwr, ac i sicrhau nad yw llywodraethwyr wedi cael eu hanghymwyso rhag bod yn ymddiriedolwr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2006 (fel y'i diwygiwyd);
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a chyrff ac adrannau llywodraeth eraill sy'n gyfrifol am gyllid cyhoeddus, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, contractau a chynigion cyllido;
- cyflwyno data i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn flynyddol i ganiatáu ar gyfer monitro nodweddion cydraddoldebau;
- cydymffurfiaeth gyda banciau'r Brifysgol fel rhan o'u gofynion 'Adnabod Eich Cwsmer';
- staff perthnasol y brifysgol i'ch galluogi i gael mynediad at rannau o wefan y Brifysgol sydd wedi'u diogelu gan gyfrinair, ac i ddefnyddio cyfeiriad e-bost prifysgol os dymunwch wneud hynny;

•

- cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ar gyfer llywodraethwyr sydd hefyd yn gyfarwyddwyr i is-gwmnïau'r Brifysgol;
- manylion cyswllt a gylchredir ymhlith aelodau'r Bwrdd a Thîm Gweithredol y Brifysgol yn unig;

**4.2 Ar gyfer holl aelodau'r Bwrdd, ei Bwyllgorau, aelodau ar y cyd ac is-gwmnïau'r Brifysgol:**

- recriwtio a dethol aelodau newydd gan y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu
- lledaeniad dogfennaeth ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, ei bwyllgorau ac is-gwmnïau'r Brifysgol;
- cynhwysiant yng nghofnodion y Bwrdd, ei bwyllgorau ac is-gwmnïau'r brifysgol
- cyswllt rheolaidd drwy e-bost sy'n gysylltiedig â'r brifysgol a/neu is-gwmni'r brifysgol;
- gwahoddiadau i ddigwyddiadau'r brifysgol;
- monitro a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- darparu manylion eich aelodaeth i'r Bwrdd, ei bwyllgorau ac is-gwmnïau'r Brifysgol drwy wefan y Brifysgol gan gynnwys cynllun cyhoeddi'r Brifysgol sy'n ofyniad o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- ar gyfer unrhyw ofynion adrodd, gan gynnwys yn y gofrestr o ddiddordebau, yr adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol, a chyhoeddiadau'r brifysgol;
- yswirwyr y brifysgol;
  archwilwyr mewnol ac allanol y brifysgol, cyfreithiwr a chynrychiolwyr cyfreithiol y brifysgol;
- gwestai a lleoliadau allanol er dibenion archebu llety neu ddigwyddiadau, gofynion dietegol neu fynediad.

## 4. BETH YW'R SAIL GYFREITHIOL AR GYFER PROSESU EICH DATA PERSONOL?

**Mae angen i'r Brifysgol brosesu eich data personol i gydymffurfio a'i rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.**

Yn yr achos hwn, efallai y byddwn yn defnyddio'ch data personol:

- i ymgymryd â gwaith y Bwrdd (corff statudol), ei bwyllgorau ac is-gwmnïau'r Brifysgol;
- i recriwtio a dethol aelodau newydd i Bwyllgor Enwebu a Llywodraethu'r Bwrdd neu Fwrdd is-gwmni'r Brifysgol;
- i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Brifysgol;
- i gynnal Cofrestr o Ddiddordebau sy'n cynnwys datganiadau gan bob aelod o'r Bwrdd, ei bwyllgorau a Byrddau is-gwmnïau'r Brifysgol;
- i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth y Bwrdd, Byrddau is-gwmnïau'r Brifysgol a thrwy'r Brifysgol gyfan;
- er cynhwysiant yng Nghynllun Cyhoeddi'r Brifysgol, sy'n ofyniad o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
  i sicrhau nad yw'r llywodraethwyr a'r cyfarwyddwyr wedi'u hanghymwyso fel ymddiriedolwyr elusen yn unol â Deddf Elusennau 2006 (fel y'i diwygiwyd);
- i fodloni gofynion cyfraith cwmnïau ar gyfer cyfarwyddwyr is-gwmnïau'r Brifysgol.

**Mae'n ofynnol i'r Brifysgol brosesu eich data personol er mwyn gwarchod eich buddiannau allweddol i fywyd neu rai unigolyn arall.**

- I warchod buddiannau allweddol i fywyd llywodraethwyr a chyfarwyddwyr is-gwmnïau'r Brifysgol ac eraill h.y. mewn argyfyngoedd/mater o fywyd a marwolaeth/lle'r ydym yn credu fod llywodraethwr/cyfarwyddwr neu unigolyn arall yn wynebu risg sylweddol o niwed.

-

**Mae dibenion busnes dilys y mae angen i'r Brifysgol brosesu eich data ar eu cyfer.**

- i wneud ceisiadau am gyllid i gyrff cyllido'r DU;
- cyflawni gofynion trefniadau bancio'r Brifysgol;
- ar gyfer gweinyddu hawliadau traul.

**Bydd y Brifysgol yn ceisio eich caniatâd ar gyfer y dibenion canlynol:**

- archebu hyfforddiant gyda sefydliadau allanol;
- rhannu manylion cyswllt gydag aelodau erial y Bwrdd
- rhannu datganiadau ac ar gyfer cynhyrchu dogfennaeth etholiad (ar gyfer aelodau staff sy'n ceisio cael eu hethol i'r Bwrdd)
- cadarnhau anghenion llety, diet a mynediad ar gyfer digwyddiadau.
- eich ychwanegu i restrau postio perthnasol ar gyfer cyhoeddiadau'r Brifysgol.
- rhoi trwyddedau neu docynnau parcio ar gyfer meysydd parcio'r Brifysgol

Lle'r ydym yn prosesu **data personol sensitif/categorïau arbennig o ddata personol**, byddwn yn dibynnu ar yr amodau yn Erthygl 9 o'r UKGDPR: caniatâd pendant, buddiannau allweddol i fywyd, budd sylweddol i'r cyhoedd, meddygaeth alwedigaethol, archifo/ymchwil.

## 5. GYDA PHWY YDYM NI'N RHANNU EICH DATA?

Dylech fod yn ymwybodol y gall bod angen i ni rannu eich data personol neu sensitif o fewn y sefydliad neu y tu allan i Brifysgol Wrecsam er mwyn darparu ein gwasanaethau. Mae preifatrwydd eich data personol o'r pwys mwyaf ac ni fydd yn cael ei ddatgelu oni bai bod pwrpas y gellir ei gyfiawnhau dros wneud hynny. **NID yw'r Brifysgol BYTH yn gwerthu data personol i drydydd partïon.**

Eraill y byddwn efallai'n rhannu'ch data â nhw:

- **Staff y Brifysgol**. Lle bod angen y wybodaeth ar gyfer dibenion gweinyddol. Yn achos ymgeiswyr ar gyfer swyddi llywodraethwyr staff, bydd y datganiad i'r etholwyr yn cael ei rannu gyda holl staff y Brifysgol.

- **Contractwyr a chyflenwyr.** Lle mae'r Brifysgol yn defnyddio gwasanaethau allanol neu wedi allanoli gwaith sy'n cynnwys defnydd o ddata personol llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr ar ein rhan. Bydd y Brifysgol yn sicrhau fod contractau, telerau ac amodau a/neu gytundebau rhannu data priodol ar waith a bod y contractwyr a'r cyflenwyr yn prosesu data personol yn unol â'r UKGDPR a deddfwriaeth berthnasol arall.

- **Cyrff ac adrannau llywodraeth yn y DU ac Ardaloedd Economaidd Ewropeaidd (EEA).** At ddibenion arian cyhoeddus, ceisiadau am arian, dadansoddi ystadegol, monitro ac archwilio, materion rheoleiddiol a noddi.

- **Gwestai a lleoliadau allanol**. At ddibenion archebion digwyddiad, llety, gofynion dietegol a mynediad.

- **Banciau'r Brifysgol.**

- **Y Comisiwn Elusennau**.

- **Tŷ'r Cwmnïau.** Ar gyfer cyfarwyddwyr is-gwmnïau'r Brifysgol.

- **Yswirwyr, cynghorwyr cyfreithiol ac archwilwyr y Brifysgol.**

- Y rheiny sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch **datganiadau o ddiddordeb** gan lywodraethwyr neu gyfarwyddwr y mae'n rhaid iddynt fod ar gael ar gais.

Mae data gan aelodau'r Bwrdd, ei Bwyllgorau ac ar gyfer is-gwmnïau yn cael ei gadw gan Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr, gyda mynediad yn cael ei roi i'r aelodau staff hynny sydd angen cysylltu â chi i alluogi gwaith y Bwrdd, ei Bwyllgorau a'i is-gwmnïau neu i'ch gwahodd i ddigwyddiadau'r Brifysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth sy'n cael ei chadw amdanoch, cysylltwch â Chlerc y Bwrdd clerktotheboard@wrexham.ac.uk

## 7. TROSGLWYDDIADAU I DRYDEDD WLAD/SEFYDLIADAU RHYNGWLADOL

Os oes angen i ni drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i sefydliad arall i'w phrosesu mewn gwledydd nad ydynt wedi'u rhestru fel 'digonol' gan y Comisiwn Ewropeaidd, byddwn yn gwneud hynny dim ond lle:

- mae'r trosglwyddiad yn destun ‘mesurau diogelu priodol’ ar gyfer trosglwyddiadau rhyngwladol;
- mae gennym eich caniatâd penodol; neu
- mae rhwymedigaeth gytundebol.

## 8. SUT MAE’CH DATA YN CAEL EI GADW’N DDIOGEL?

Mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar systemau electronig diogel lle caiff mynediad â chyfrinair ei reoli’n llym, fel y gall rheolwyr a staff weld y wybodaeth sy’n briodol ac yn angenrheidiol iddynt gyflawni eu swydd yn unig. Lle caiff data sensitif ei gadw ar ffurf copi caled, caiff ei gadw mewn cabinetau ffeilio y gellir eu cloi mewn ystafelloedd â mynediad cyfyngedig.

Mae’r Brifysgol yn cymryd dull cadarn o ddiogelu'r wybodaeth sydd ganddi. Mae hyn yn cynnwys cofion bach yn cael eu hamgryptio wrth ddefnyddio cyfrifiaduron/gliniaduron y Brifysgol a defnyddio mesurau technegol gan gynnwys waliau tân, offer canfod ac atal ymyrraeth ar rwydwaith y Brifysgol.

Ochr yn ochr â’r mesurau technegol hyn, mae polisïau a phrosesau cynhwysfawr ac effeithiol ar waith i sicrhau fod defnyddwyr a gweinyddwyr gwybodaeth y brifysgol yn ymwybodol o’u rhwymedigaethau a’u cyfrifoldebau dros y data y mae ganddynt fynediad ato. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff newydd sy’n ymuno â’r Brifysgol ac mae hyfforddiant a chyngor arbenigol ar gael i staff presennol os oes angen.

## 9. AM BA MOR HIR FYDD EICH DATA YN CAEL EI GADW?

Y cyfnod cadw ar gyfer cofnodion sy’n ymwneud ag aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr a’i Bwyllgorau, gan gynnwys cymhwyso a phenodi/canlyniadau etholiad a manylion datganiad o ddiddordeb yw 7 mlynedd ar ôl eich cyfnod o wasanaeth, gyda rhai eithriadau:

- Caiff data monitro cydraddoldeb ei ddiweddaru yn flynyddol a bydd ffurflenni wedi’u cwblhau yn cael eu dinistrio unwaith y derbynnir y ffurflen wedi’i diweddaru. Caiff ystadegau wedi’u gwneud yn ddienw eu cadw’n barhaol yn ein harchifau.

- Bydd gwybodaeth sy’n berthnasol i archebion digwyddiadau yn cael ei chadw am gyfnod gwasanaeth pob aelod.

- Caiff cofnodion o hawliadau traul a manylion taliadau a bancio eu cadw gan yr Adran Gyllid am 7 mlynedd er dibenion treth archwilio ac yna cânt eu cadw yn yr archifau’n ddiderfyn.

- Ar gyfer cyfarwyddwyr is-gwmniau’r brifysgol~~,~~ caiff cofnodion eu cadw am 10 mlynedd wedi dirwyn y cwmni i ben/gwaredu’r cwmni.

- Caiff y cofnodion canlynol eu cadw’n barhaol yn ein harchifau:

    - cofnodion cyfarfodydd pwyllgorau a’r Bwrdd
    - adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol

- lluniau

- Caiff datganiadau i Glerc y Bwrdd a wneir gan ymgeiswyr llwyddiannus i swyddi llywodraethwyr staff eu cadw am gyfnod eu gwasanaeth. Yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus, y cyfnod cadw yw 6 mis wedi diwedd yr etholiad.

## 10. BETH YW EICH HAWLIAU?

Dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- **cael gwybod** am y defnydd o'ch data;
- gofyn am **fynediad** at y data personol sydd gennym amdanoch chi neu gopïau ohono;
- gofyn i ni **roi'r gorau** i brosesu eich data personol;
- gofyn i ni beidio anfon unrhyw gyfathrebiadau marchnata i chi;
- gwneud cais i **gywiro'r** data personol sydd gennym amdanoch chi os yw'n anghywir;
- gofyn i ni **ddileu** eich data personol;
- gofyn i ni **gyfyngu** ar ein gweithgareddau prosesu data (a, lle mae ein prosesu yn seiliedig ar eich caniatâd, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl, heb effeithio ar gyfreithlondeb ein prosesu yn seiliedig ar ganiatâd cyn ei dynnu'n ôl);
- derbyn gennym ni'r data personol rydych chi wedi'i ddarparu i ni, mewn fformat rhesymol a bennir gennych chi, i chi ei storio neu ei ailddefnyddio at eich dibenion eich hun neu ei drosglwyddo i reolwr data arall (**cludadwyedd data**);
- **gwrthwynebu**, ar sail sy'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol, i unrhyw un o'n gweithgareddau prosesu penodol lle rydych chi'n teimlo bod hyn yn cael effaith anghymesur ar eich hawliau a'ch rhyddid;
- peidio â bod yn destun **penderfyniadau awtomataidd** oni bai bod gennym sail gyfreithlon i wneud hyn, a'n bod yn dweud wrthych am y proffilio a'r penderfyniadau awtomataidd a wnawn, a sut y gallwch wrthwynebu. Nid ydym yn gwneud penderfyniadau nac yn proffilio yn awtomataidd mewn perthynas ag aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr.

Sylwer nad yw'r hawliau uchod yn absoliwt ac efallai y bydd gennym hawl i wrthod ceisiadau lle mae eithriadau'n berthnasol.

Dylid gwneud unrhyw geisiadau am wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i **Swyddog Diogelu Data** y Brifysgol:

Plas Coch
Prifysgol Wrecsam
Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam
LL11 2AW

E-bost: dpo@wrexham.ac.uk

## 11. SUT I WNEUD CWYN

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, pryderon neu os hoffech godi cwyn ynghylch y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn y lle cyntaf, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, yna mae gennych chi'r hawl i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Gellir cysylltu â'r ICO yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,

Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF
Ffôn 0303 123 1113 www.ico.org.uk

Fersiwn 7 Tachwedd 2025